OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 2491 (Cy. 239)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A55 (Cyfnewidfa Parc Dewi Sant i Gyffordd 33a (Cyffordd Brookside), Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2014

*Gwnaed* *15 Medi 2014*

*Yn dod i rym* *21 Medi 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) a Chefnffordd Caer – Bangor (yr A55) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Medi 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A494 a'r A55 (Cyfnewidfa Parc Dewi Sant i Gyffordd 33a (Cyffordd Brookside), Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2014.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 18:30 o'r gloch ar 21 Medi 2014 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y darnau o’r cefnffyrdd” (“*the lengths of the trunk roads*”) yw’r darnau o’r cefnffyrdd yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o’r fath gael ei reidio ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr, ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a’r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis, ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 15 Medi 2014

***R Morgan***
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1
## Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.

2. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 34 (Cyfnewidfa Ewloe).

3. Y darn cyfan o ffordd gysylltu tua'r gorllewin yr A55 wrth Gyffordd 34 (Cyfnewidfa Ewloe).

4. Y darn cyfan o ddolen allanol glocwedd yr A55/A494 wrth Gyffordd 34 (Cyfnewidfa Ewloe).

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder o 40 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffyrdd yr A494 a'r A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Plough Lane hyd at drwyniad y ffordd ymadael i'r gwasanaethau yn Ewloe, gan gynnwys y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin i Alltami.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffyrdd yr A55 a'r A494 sy'n ymestyn o'r ynys hollti ganolog wrth Gyffordd 33a (Cyffordd Brookside) i drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant, gan gynnwys y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A494 o Alltami.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 (Dobshill) i drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 34 (Cyfnewidfa Ewloe).